Plant a chyflogaeth

Mae'r daflen ffeithiau hon yn berthnasol i blant a phobl ifanc **dan oed gadael ysgol**. Gall pobl ifanc adael ysgol ar y dydd Gwener olaf ym Mehefin y flwyddyn ysgol yr ydynt yn 16 oed. Yn yr Alban, yn dibynnu ar bryd y maen nhw'n 16 oed, mae rhai disgyblion yn gallu gadael ar ôl y Nadolig neu ar Fai 31.

Os ydych dros oed gadael ysgol, gweler Cymorth Ychwanegol ar waelod y daflen ffeithiau hon lle cewch hyd i fwy o wybodaeth.

Mae yna ddeddfau i amddiffyn hawliau cyflogaeth plant a phobl ifanc. Mae'r deddfau hyn yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, pa waith y gallwch ei wneud, pryd allwch weithio a'ch oriau gwaith. Mae'r deddfau hyn yn llym iawn, a gellir erlyn cyflogwr am beidio â'u dilyn.

Pa waith y gallwch ei wneud

Ni ellir cyflogi person sydd o dan oed gadael ysgol i wneud gwaith nad yw'n waith ysgafn. Nid oes gennych hawl i wneud gwaith sy'n debygol o beryglu eich diogelwch, iechyd, datblygiad, neu gwneud gwaith a fydd yn effeithio ar eich presenoldeb yn yr ysgol neu eich cyfranogiad mewn profiad gwaith. Nid oes gennych hawl i weithio:-

- mewn ffatri neu wneud unrhyw waith adeiladu
- mewn trafnidiaeth
- mewn pwll glo
- ar long masnach cofrestredig.

Mae'n bosib bod gan yr awdurdod lleol ble rydych yn byw ychydig o reolau ychwanegol, a elwir yn **is-ddeddfau**, sy'n ymdrin â chyflogaeth plant yn eich ardal chi. Dylech ofyn i'ch awdurdod lleol am fwy o wybodaeth amdanynt. Mae'n rhaid i is-ddeddfau sy'n caniatáu plant i fasnachu ar y stryd ddweud y diwrnodau, yr oriau, a'r mannau y caniateir iddynt weithio.

Mae'n ofynnol i gyflogwyr sydd am gyflogi plant dan oed gadael ysgol i gael **trwydded** oddi wrth ei awdurdod lleol. Mae'n rhaid bod llofnod eich cyflogwr ac un o'ch rhieni ar y drwydded.

Plant dan 14

Mae yna rai rheolau ychwanegol ynglŷn â chyflogi plant dan 14. Os ydych dan 14, nid oes hawl gennych i weithio o gwbl ac eithrio'r gwaith canlynol:-

- cymryd rhan mewn chwaraeon, hysbysebu, modelu, dramâu, ffilmiau, teledu neu adloniant arall. Mae'n rhaid i'r cyflogwr wneud cais am drwydded i'r awdurdod lleol
- darnau bychain eraill o waith ar gyfer rhiant, perthynas neu gymydog
- gwarchod plant – gweler isod.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Fodd bynnag, caniateir plant sy'n 13 neu'n hŷn i wneud mathau eraill o waith, yn dibynnu ar is-ddeddfau awdurdod lleol eu hardal. Er enghraifft, efallai bod yr is-ddeddfau yn dweud bod plant sy'n 13 neu'n hŷn yn eich ardal chi yn gallu dosbarthu papurau newyddion, neu wneud gwaith ysgafn na fydd yn effeithio ar eu hiechyd, diogelwch na'u datblygiad.

Oriau gwaith

Os caniateir i chi weithio, nid oes gennych hawl i weithio:-

- yn ystod oriau ysgol ar ddiwrnod ysgol
- am fwy na dwy awr ar ddiwrnod ysgol neu am fwy na 12 awr mewn wythnos y mae gofyn i chi fod yn yr ysgol
- am fwy na dwy awr ar ddydd Sul
- am fwy nag wyth awr (pum awr os ydych dan 15) ar ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod ysgol neu ddydd Sul
- cyn 7am neu ar ôl 7pm
- am fwy na 35 awr yr wythnos (25 awr os ydych dan 15) yn ystod wythnos nad oes gofyn i chi fynd i'r ysgol
- am fwy na phedair awr mewn diwrnod heb awr o egwyl
- unrhyw bryd, os yw gweithio yn golygu nad ydych wedi cael dwy wythnos o wyliau di-dor o'r ysgol yn ystod y 12 mis yn dechrau ar Ionawr 1.

Iechyd a diogelwch yn y gwaith

Os ydych dan oed gadael ysgol, rydych dim ond yn gallu cael eich cyflogi os yw'r person yr ydych yn gweithio iddo (eich **cyflogwr**) wedi **asesu'r risgiau posibl** i'ch iechyd a diogelwch. Mae'n rhaid iddynt roi ystyriaeth fanwl i'ch oed, diffyg profiad, a phethau eraill a allai beryglu eich iechyd a diogelwch.

Mae'n rhaid i'ch cyflogwr ddweud canlyniadau'r asesiad wrth un o'ch rhieni. Mae'n rhaid iddo gynnwys unrhyw risgiau a adnabuwyd, ac unrhyw fesurau a roddwyd yn eu lle i sicrhau eich iechyd a'ch diogelwch yn y gwaith.

Nid yw'r rheolau hyn yn berthnasol os ydych yn gwneud gwaith achlysurol megis dyletswyddau ysgafn i rywun yr ydych yn ei adnabod, neu warchod plant.

Gwyliau

Os ydych dan oed gadael ysgol, nid oes gennych hawl gyfreithiol i wyliau â thâl o'r gwaith.

Tâl

Os ydych dan oed gadael ysgol, nid oes lleiafswm cyflog y mae'n rhaid i'ch cyflogwr eich talu.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Gwarchod plant

Gallwch warchod plant beth bynnag eich oed, p'un ai a ydych yn cael eich talu ai peidio. Rydych yn gallu gwarchod plentyn sy'n unrhyw oed. Fodd bynnag, os ystyrir nad yw'r plentyn yr ydych yn ei warchod yn cael ei drin yn gywir, gellir erlyn rhieni'r plentyn, neu gellir cymryd camau i roi eu plentyn mewn gofal.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Pobl ifanc a chyflogaeth

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 1 Mai 2007, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr